

# Dyfodol ynni – y cwestiynau sy'n pwyso ar bawb ohonom

**Yr Athro Gareth Wyn Jones yn nodi'r prif ddewisiadau ar bwnc ynni - ac yn galw ar bawb i'w hystyried o ddifrif ac ymateb ...**

BETH ydy ein hagweddau ni wrth wynebu, o ddifri', y dewisiadau ynglŷn â'r ynni angenrheidiol i gynnal ein bywydau a'n cymdeithas? Dewisiadau anodd ond anorfod.

Nid am ryw fân newidiadau yr ydan ni'n sôn.

Yn ôl un esiamp, mae pob copa walltrog ohonon ni'n defnyddio o leiaf werth 125 kW awr y pen o ynni, pob awr o'r dydd pob dydd o'r flwyddyn. Hyn yn cyfateb i bawb yn llosgi'r pum tân trydan un bar yna'n barhaus.

Neu'r esiamp arall - bod llenwi car gyda 40 litr o betrol yn cyfateb i 400 kW awr o danwydd, sef un bar trydan yn llosgi am fwy nag 16 diwrnod.

Yn reddf, byddai llawer ohonon ni'n dewis canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy a lleihau ein dibyniaeth ar danwydd hydrocarbon sy'n ddrud ac yn dod yn bennaf o dramor. Hyn er y ffrwgwd gyda phethau fel melinau gwynt a'r angen am gynlluniau storio ynni fel Dinorwig, Stwlan a chynllun newydd Glyn Rhonwy. Ac er nad ydy hi'n glir a fydd hyn yn diwallu'r galw anferth.

## Y PRIF DDEWISIADAU

Bu sawl ymdrech i amcanu faint o ynni adnewyddadwy y mae'n **ymarferol bosib** ei gynhyrchu ar lefel Brydeinig. Nid y potensial absoliwt ond yr hyn sy'n debygol o fod yn dderbyniol ac yn gost-effeithiol.

Mae'r amcangyfrifon yn amrywio o tua 16 kW awr y pen i tua 55 kW awr y pen. Ond does yr un yn agos at y 125 kW awr yr ydan ni'n ei ddefnyddio ar hyn o bryd (hyd yn oed heb gynnydd oherwydd twf economaidd a thwf poblogaeth).

Felly be ydy'r dewisiadau?

[a] Gwadu ac anwybyddu'r broblem. Parhau i ddibynnu ar hydrocarbonau drud o dramor. Gwadu bod newid hinsawdd a chynhesu byd-eang yn broblem ddifrifol. Tacteg gyffredin iawn gyda'r dde Americanaidd a rhai ym Mhrydain sy'n gweld 'tystiolaeth wyddonol' yn gynllwyn enfawr yn erbyn cyfalafiaeth a'r breuddwyd Americanaidd.

[b] Derbyn y broblem yn rhannol ond penderfynu bod unrhyw ymdrech sylweddol nawr i'w datrys yn bwgwth ein heconomi bregus. Gwell disgwyl am wyrth dechnolegol yn y degawdau nesaf i'n hachub. 'Rhagluniaeth fawr y nef!'

[c] Derbyn difrifoldeb y broblem a bod ein cyfrifoldeb tuag ag y cenedlaethau i ddod yn gofyn gweithredu nawr - er gwaetha'r anawsterau amlwg a'r ansicrwydd.

Os [c], bydd ail gyfres o gwestiynau – gan gymryd yn ganiataol ein bod yn trydaneiddio'r economi i leihau ein dibyniaeth ar danwydd disel i redeg ein ceir a'n trenau a chynhesu ein tai. (Mae llongau ac awyrennau'n fater gwahanol).

## CWESTIYNAU YCHWANEGOL

A gor-symleiddio, dyma nhw:

[i] A ydan ni'n fodlon canolbwyntio i'r eithaf a rhoi blaenoriaeth i ddatblygu ein hadnoddau ynni adnewyddadwy hyd yn oed os ydy hynny'n difrodi rhai o'n hoff lefydd ac yn newid golygfeydd ar dir a môr a pheryglu ambell fath o fwsog?

[ii] A ydan ni'n fodlon gweld, nid dim ond Wylfa B, ond trwch o atomfeydd o gwmpas y byd a bodloni byw gyda rhagor o wastraff niwclear?

[iii] A ydan ni'n fodlon dibynnu hefyd ar fewnforio ynni adnewyddadwy o wledydd y Sahara, gan ei bod yn annhebygol bod ein hadnoddau cynhenid yn ddigon? Derbyn ein bod yn gyd-ddibynol?

[iv] Neu a ydan ni'n fodlon lleihau'n sylweddol ein defnydd o ynni. Bod yn llawer mwy gofalus. Newid ein ffordd o fyw. Lleihau ein defnydd o'r car, nes cael ceir trydan, gostwng y gwres canolog. Anelu at 1 neu 2 bar y pen y unig!

Os oes gan ddarllenwyr **Golwg** syniadau gwahanol, gwell, gorau oll. Ond mae'n hynod bwysig ein bod yn dechrau'r drafodaeth.

Ac os oes yna grwpiau sy'n gwrthwynebu pob math o gynlluniau adnewyddadwy, rhaid iddyn nhw wynebu'r cwestiynau yma - sut ydych chi am gynnal eich 5 bar trydan neu a ydych, yn bersonol, am ostwng eich defnydd o ynni o leiaf i'r hanner? A dangos y sŷms!